

Cyfle Celfyddydau & Busnes Cymru

Crefft Brains

Fe'ch gwahoddir i gyflwyno cais ar gyfer comisiwn newydd sy'n cael ei gynnig gan Fragdy Brains.

Cyflwyniad

Mae Bragdy Brains, un o frandiau enwocaf Cymru, yn ail-lansio ei ddetholiad o Gwrw Cynnyrch Cyfyngedig fel rhan o ymgyrch ailfrandio ehangach. Mae Cwrw Cynnyrch Cyfyngedig yn cael ei werthu mewn tafarnau am gyfnodau penodol, gyda phob cwrw ar gael am 4-6 wythnos fel arfer. Mae yna 4-6 Cynnyrch Cyfyngedig ar gael drwy gydol y flwyddyn.

Cydweithio ag Artist

Mae Brains eisiau comisiynu artistiaid Cymreig neu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru i greu gwaith celf ar gyfer pob Cwrw Cynnyrch Cyfyngedig i nodi Pencampwriaeth y Chwe Gwlad y flwyddyn nesaf – Try SA a Tight Head. Bydd y cwrw'n cael ei werthu mewn tafarnau yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2026.

Y cynnig

Mae Brains yn gwahodd syniadau dylunio ar gyfer Try SA a Tight Head, a grëwyd i weithio gyda'r templed a ddarperir [yma](#). Fe ddylai'r syniad gael ei gyflenwi ar ffurf ddigidol a gweddu i thema'r cwrw. Mae manylion llawn am bob comisiwn i'w gweld isod:

Try SA

https://docs.google.com/document/d/1Un4_duRZG2fIFsPF0GGn8B6gCNvyliS78Ps_jC9o19Y/edit?usp=sharing

Tight Head

https://docs.google.com/document/d/1v_c7AF_7Rd1AVnZuW1bSY4W3T_8Pm3JAO-2SRh2axiE/edit?usp=sharing

Yn ogystal â'r cyfleoedd hyrwyddo helaeth sydd ar gael ar gyfer y comisiwn hwn a ddisgrifir ym mhob un o'r briffiau dylunio, telir ffi o £500 am bob dyluniad a ddewisir.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyflwyno dyluniad, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd, ynghyd â'r gwaith celf arfaethedig, i contactus@aandbcymru.org.uk erbyn dydd Gwener 28 Tachwedd fan bellaf.

Manylion

Enw	
Sefydliad Celfyddydau (os yw'n berthnasol)	
Statws Cyfreithiol	
Cyfeiriad (gan gynnwys cod post)	
Rhif ffôn	
E-bost	
Gwefan	

Disgrifiad o waith yr artist. Cyflwynwch CV ac enghreifftiau o'ch gwaith gyda'r cais hwn. Dim mwy na 200 o eiriau

--